## YR ATODLEN

### Tanwyddau Awdurdodedig

**65.** Brics glo Jewel, a weithgynhyrchir gan Eldon Colliery Limited yn Newfield Works, Bishop Auckland, Swydd Durham—

(a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 30 i 50% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm Long Beach (sef tua 50 i 70% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o garbohydrad (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o tua 150°C;

(c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;

(d) sy'n pwyso 33 gram ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy nag 1.5% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.